5 FFORDD I GARU BANNAU BRYCHEINIOG

Mae'r pethau ystyriol rydych yn eu gwneud fel ymwelydd cyfrifol yn gwneud gwahaniaeth mawr. Diolch am helpu i gadw Bannau Brycheiniog yn lle arbennig.

Fan y Big

/breconbeaconsnationalpark
@BreconBeaconsNP
@breconbeacons

BANNAU BRYCHEINIOG
EIN PARC CENEDLAETHOL

www.breconbeacons.org/visitorcharter

1 MAE DOETHION YN DIFFODD

Mae'r awyr fan hyn ymhlith y tywyllaf yn Ewrop; ar noson glir edrychwch i fyny i weld y Llwybr Llaethog yn ei holl ogoniant. Mae diffodd goleuadau a throi'r gwres i lawr pan nad oes ei angen yn gwneud mwy nag arbed ynni a lleihau allyriadau carbon. Mae'n helpu i sicrhau nosweithiau hudol yn y Warchodfa Awyr Dywyll Ryngwladol hon.

Cronfa ddŵr Talybont ar Wysg | Talybont on Usk Reservoir

2 BWYTWCH FWYD DA, GONEST A LLEOL.

Mae'r cynhwysion iawn i gyd yma: Awyr lân, dyffrynnoedd ffrwythlon a digonedd o ddŵr ffres. Y canlyniad yn y pen draw yw cig oen Cymreig blasus, brecwastau Cymreig traddodiadol a hyd yn oed wisgi Cymreig! Byddwch yn blasu bwyd lleol mewn bwytai o fri, tafarndai clud, siopau te hyfryd, marchnadoedd ffermwyr, siopau bwyd ac yn yr amrywiaeth o wyliau a gynhelir yma.

Peterstone Court, Llanhamlach | Peterstone Court, Llanhamlach

3 MAE LLAI YN FWY

Mae ailddefnyddio bagiau siopa ac ailgylchu yn ffordd o fyw yma. Diolch ichi am ein helpu i leihau faint sy'n cael ei daflu i ffwrdd. Mae gan y rhan fwyaf o'r trefi a phentrefi gyfleusterau ailgylchu, ac efallai bydd eich darparwr llety yn rhoi biniau ailgylchu i chi - os na, gofynnwch!

Maes parcio ymwelwyr Crug Hywel | Crickhowell visitor car park

4 NEWIDIWCH GÊR

Mae mynd o un man i'r llall yn yr awyr agored yn hawdd ac yn hwyl: rhowch gynnig ar y bws, trên, beic, canŵ neu hyd yn oed eich esgidiau cerdded! Mae hyd yn oed fflyd o geir trydan gwych sy'n cario dau berson, ynghyd â rhwydwaith gyfeillgar o fannau gwefru ledled y Parc. Byddwch yn rhyfeddu cystal mae'r cefn gwlad yn edrych o safbwynt gwahanol.

Canolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol, ger Libanus | National Park Visitor Centre, near Libanus

5 DEWCH YN NES, ANADLWCH YN WELL

Mae ein tirlun syfrdanol yn dda i chi - dylech chi ei drin fel pe bai'n ffrind i chi. Ewch yn nes at fywyd gwyllt, blodau a phlanhigion, ond peidiwch â tharfu arnyn nhw. Defnyddiwch lwybrau troed os yn bosibl, cadwch eich ci dan reolaeth ac ewch â'ch sbwriel adref bob tro. Diolch.

Mynydd Pen y Fâl ger y Fenni | Sugar Loaf Mountain near Abergavenny